

Crynodeb Cyfarfodydd Cyngor Cymuned Llangywer 2021-22

Dyddiad	Datgan Buddiant	Presennol	Penderfyniadau
10/5/21	Neb	Geraint Roberts (Cadeirydd), Clwyd Davies, Eleri Jones, Emyr Jones, Gwyn Roberts, Tyly Roberts, W D Williams Cynghorydd Alan Jones Evans, Lis Puw (Clerc)	<p>Neilltuwyd rhan o'r fynwent i dyfu'n wyllt ar gyfer bioamrywiaeth a chytunodd y Cyngor i brynu arwydd i ddynodi hynny.</p> <p>Cytunodd Tyly Roberts a Clwyd Davies i gofnodi profi'r di-ffibs.</p> <p>Derbyniwyd adroddiad yr Archwilydd Allanol 2019-20 a nodwyd nad oedd materion yn codi. Cymeradwywyd y Cysoniad Banc a Thudalen 2 o gyfrifon 2020-21 i'w cyflwyno i'r Archwilydd Mewnol.</p> <p>Cytunwyd i dalu anfoneb Yswiriant y Cyngor i Zurich sef £117.87, ac i dalu aelodaeth Un Llais Cymru £44.</p> <p>Cytunwyd i anfon llythyr at Cadw i dynnu eu sylw at gyflwr Eglwys Santes Cywair.</p>
22/6/21	Neb	Geraint Roberts, (Cadeirydd), Clwyd Davies (Is-gadeirydd), Eleri Jones, Gwyn Roberts, W D Williams, Lis Puw (Clerc)	<p>Cymeradwywyd y Ffurflen Flynyddol gan gynnwys y Datganiadau Cyfrifyddu a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer Cyngor Cymuned Llangywer am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31/3/20. Cytunwyd i gymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol i sylw Archwilydd Cymru.</p> <p>Cytunwyd i dalu anfoneb C Ellis - £500. Nodwyd derbyn £125 (Ffioedd y fynwent).</p> <p>Cytunwyd i anfon at yr asiantaethau perthnasol parthed:</p> <p>Llangywer:</p> <ol style="list-style-type: none"> i. Parcio ar y ffordd ii. Goryrru ar hyd ffordd Llangywer ac yn y pentref: iii. Safle Biniau yn Llangywer <p>Rhosygwaliau:</p>

			<ul style="list-style-type: none"> iv. Angen torri'r coed wrth bont Rhosygwaliau er mwyn diogelwch a gwella gwelededd. v. Angen torri'r gwair ar riw Tŷ'n Gwrych vi. Angen arwydd yn cyfeirio at Ben y Garth. vii. Angen llenwi lle mae'r ffordd wedi suddo wrth y tai. viii. Llwythi coed yn debygol o fod yn rhy drwm i adeiladwaith y bont. <p>Cyfarfod nesaf: Medi 6ed 2021 yn y Neuadd Bentref, Llangywer</p>
6/9/21	Dim	<p>Presennol: Clwyd Davies (Is-gadeirydd), Emyr Jones, Tyly Roberts, W D Williams, Lis Puw (Clerc) Cynghorydd Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd)</p> <p>Ymddiheuriadau Geraint Roberts, Eleri Jones a Gwyn Roberts.</p>	<p>Pont Rhosygwaliau: Cytunwyd i anfon at Gyfoeth Naturiol Cymru i ofyn am fwy o docio er mwyn gwella gwelededd.</p> <p>Gan Bwyll Cytunwyd i anfon i ddatgan fod y rasio'n digwydd yn rheolaidd ar y B4391.</p> <p>Cydweithio gyda Llanuwchllyn: derbyniwyd arweiniad gan Un Llais Cymru ar sut i wneud hyn yn ffurfiol, ond cytunwyd fod Partneriaeth Penllyn eisoes yn rhoi sail i gyd-weithio rhwng y cynghorau.</p> <p>Ariannol: Cytunwyd i dalu ail ran Cytundeb y Fynwent. Cytunwyd i brynu 2 fatri di-ffib.</p> <p>Ceisiadau Cynllunio Cymeradwywyd cais NP5/70/146A Moel y Ddinas, Rhosygwaliau.</p> <p>Parc Cenedlaethol Eryri cytunwyd cynnig ardal yn y fynwent fel safle posib ar gyfer plannu.</p> <p>Cyfoeth Naturiol Cymru: Cytunodd y Cynghorydd Alan Jones Evans i fynychu ar ran y Cyngor mewn cyfarfod ar ddiogelwch Cronfa Ddŵr Celyn.</p>

8/11/21	Dim	<p>Preseanol: Geraint Roberts, (Cadeirydd), Clwyd Davies (Is-gadeirydd), Eleri Jones, Gwyn Roberts, W D Williams, Lis Puw (Clerc) Lis Puw (Clerc) Cynghorydd Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd) am ran o'r cyfarfod, trwy gyfrwng y ffôn.</p>	<p>Cytunwyd i dalu: Cyngor Gwynedd £198 (gwasanaeth cyfrifo); torri gwrychoedd y fynwent £78; SLCC £45.</p> <p>Trafodwyd trefniadau newydd HSBC a chytunwyd i symud i fancio ar lein.</p> <p>Cymeradwywyd cais NP5/70/163 Craig yr Allt Ddu, Cwm Hirnant, Rhosygwaliau sef gosod mast telathrebu</p>
17/1/22	Dim	<p>Preseanol: Clwyd Davies (Is-gadeirydd), Eleri Jones, Emyr Jones, Gwyn Roberts, Tylly Roberts, W D Williams, Lis Puw (Clerc) Yn bresennol am ran o'r cyfarfod dros y ffôn: Geraint Roberts, (Cadeirydd), Cynghorydd Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd) Lis Puw (Clerc)</p>	<p>NP5/70/LB28 GWRTHODWYD trwy fwyafrif Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer newidiadau i'r bont droed gan gynnwys gosod trac trên a gwaith cysylltiedig Pont Mwnwgl-y-Llyn, Bala.</p> <p>NP5/53/576GWRTHODWYD trwy fwyafrif Estyniad arfaethedig i reilffordd trac cul Llyn Tegid i gynnwys 1200m o drac reilffordd, croesfan reilffordd, codi gorsaf reilffordd newydd, adeiladau ategol ar gyfer injan drên a cherbydau, blwch signal ynghyd a datblygiad cysylltiol</p> <p>Cyllid: Cytunwyd i gadw lefel y praesept yr un fath, sef £4,125. Trafodwyd y cyllid sydd ar gael ar gyfer cynnal a chadw'r fynwent am y flwyddyn 2022, a chytunwyd i dderbyn cynnig Chris Ellis i gyflawni 3 toriad am £500 yr un. Nodwyd mai 2 doriad a wnaethpwyd yn 2021. Cytunwyd i dalu £330 costau cynnal swyddfa i'r Clerc; a £250 i <i>hg web designs</i> Cytunwyd i drafod ceisiadau am gefnogaeth ariannol yng nghyfarfod mis Chwefror.</p>
21/2/22	Dim	<p>Preseanol: Geraint Roberts (Cadeirydd), Clwyd Davies (Is-gadeirydd), Eleri Jones, Emyr Jones, Gwyn Roberts, Cynghorydd Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd) Lis Puw (Clerc)</p>	<p>Cytunwyd i dalu am gofrestru tir y fynwent ac unrhyw gostau yn ymwneud a hynny.</p> <p>Cytunwyd i uwchraddio Polisi a ffioedd y fynwent i gyd-fynd a Mynwent Llanuwchllyn.</p> <p>Cytunwyd i barhau i gadw'r ychwanegiad y cyfyngir claddedigaethau i breswylwyr neu i bobl sydd â chysylltiad agos iawn gyda Llangywer.</p>

			<p>Nid oedd gwrthwynebiad i gais maes carafanau Pantyrnnonen i hysbysu fod angen i gwn fod ar dennyn wrth fynd am dro trwy'r gwersyll.</p> <p>Ystyriwyd Cyfraniadau Cymunedol a chytunwyd fel a ganlyn: Neuadd Bentref Llangywer - £675; Cantref, Y Plase - £50; Cffl Meirionnydd - £250; Theatr Bara Caws- £25</p>
--	--	--	---